

# GREEN GEN CYMRU TYWI TEIFI

Llyfryn ymgynghoriad cam dau - Gwanwyn 2025

**Rhwydwaith trydan cryfach
a mwy gwydn i Gymru**

GREEN
GEN
CYMRU

**Cynnwys**


| | |
|---|---|
| Cyflwyniad | 03 |
| Gwybodaeth amdanom ni | 04 |
| Ychwanegu capasiti angenrheidiol i'r grid | 05 |
| Pam mae angen y cysylltiad | 06 |
| Ein cynigion | 07 |
| Rhoi Adborth | 08 |
| Datblygu aliniad drafft y llwybr | 10 |
| Map aliniad llwybr | 11 |
| Adrannau aliniad y llwybr | |
| Adran 1 – Lan Fawr i Lambed | 12 |
| Adran 2 – Llambed i Lanllwni | 14 |
| Adran 3 – Llanllwni i Alltwalis | 16 |
| Adran 4 – Alltwalis to Rhydargaeau | 18 |
| Adran 5 – Rhydargaeau i Landyfaelog | 20 |
| Dyluniad peilonau | 22 |
| Gosod ceblau tanddaearol | 24 |
| Gwybodaeth i gefnogi'r ymgynghoriad | 26 |
| Beth sy'n digwydd nesaf | 27 |
| Manylion cyswllt | 28 |







# Cyflwyniad

**Mae Green GEN Cymru wrthi'n datblygu cysylltiad trydan 132kV newydd rhwng Parc Ynni Lan Fawr, i'r dwyrain o Landdewi Brefi, Ceredigion, i is-orsaf newydd y National Grid yn Llandyfaelog, Sir Gaerfyrddin – er mwyn datblygu rhwydwaith trydan cryfach a mwy cadarn i Gymru, sy'n cynnig ynni glân ac adnewyddadwy i'n busnesau a'n cymunedau.**

Rydyn ni wedi diweddaru ein cynigion mewn ymateb i adborth i'n hymgynghoriad cyntaf yn 2024 a'n hasesiadau parhaus. Mae'r rhain yn cynnwys:

- Aliniad llwybr drafft, gan gynnwys lleoliadau peilonau arfaethedig.
- Rhannau o waith gosod ceblau o dan y ddaear.

Yr ymgynghoriad hwn yw eich cyfle chi i roi sylwadau a dylanwadu ar sut bydd y prosiect yn parhau i gael ei ddatblygu.

Mae angen y cysylltiad newydd hwn i ychwanegu capasiti at y rhwydwaith lleol, gan ddarparu'r seilwaith angenrheidiol i gysylltu ynni adnewyddadwy â chartrefi a busnesau. Gallai hefyd helpu i gefnogi'r gwaith o gyflwyno systemau gwresogi trydan a cherbydau trydan yn eang, gan helpu i fynd i'r afael â'r argyfwng hinsawdd.

Yn y llyfryn hwn gallwch weld sut rydyn ni wedi ystyried adborth wrth ddatblygu'r cysylltiad newydd, a sut y gallwch chi rannu eich adborth i siapio'r cynigion ymhellach.

Gallwch chi ddylanwadu ar ddyluniad y cysylltiad o hyd – rydyn ni'n gofyn am adborth er mwyn i ni allu parhau i gadw'r effeithiau mor fach â phosibl.

Bydd ein hymgynghoriad ar waith rhwng **5 Mawrth ac 16 Ebrill 2025.**

Rydyn ni'n edrych ymlaen at dderbyn eich sylwadau.







# Gwybodaeth amdanom ni

**Mae Green GEN Cymru yn gweithio i ddatblygu rhwydwaith trydan cryfach a mwy cadarn ar gyfer Cymru a thu hwnt – gan ddosbarthu ynni glân a gwyrdd i'n cartrefi, ysbytai, ysgolion, busnesau a chymunedau.**

Fel Gweithredwr Rhwydwaith Dosbarthu Annibynnol (IDNO), nod rhwydwaith arfaethedig Green GEN Cymru yw datgloi potensial ynni Cymru a chefnogi, cyflymu a galluogi gwaith Cymru o newid i sero net. Mae angen seilwaith grid newydd i gryfhau ein cadernid ynni, ychwanegu capasiti at rwydweithiau lleol, a helpu i baratoi'r ffordd ar gyfer cyflwyno systemau gwresogi gwyrdd a cherbydau trydan yn eang.

Mae trwydded IDNO yn ein galluogi i weithredu rhwydweithiau dosbarthu trydan, gan gefnogi'r galw cynyddol am ynni adnewyddadwy ledled y wlad. Fel busnes rheoledig, gall ein rhwydwaith dosbarthu hefyd alluogi cysylltiad uniongyrchol ar gyfer defnyddwyr ynni – fel busnesau ac adeiladau cyhoeddus, a chynhyrchwyr ynni newydd gan gynnwys prosiectau cymunedol a phrosiectau ynni adnewyddadwy eraill.

Rydyn ni'n gwahodd darpar gwsmeriaid, gan gynnwys cynhyrchwyr ynni a defnyddwyr ynni, i gyflwyno datganiadau o ddiddordeb. Os hoffech chi gysylltu â'n rhwydwaith, neu os oes gennych chi ddiddordeb mewn trafodaeth ddichonoldeb gychwynnol, cysylltwch â **customerconnections@greengencymru.com**.

Rydyn ni'n chwarae rhan allweddol yn y gwaith o ddatblygu rhwydwaith dosbarthu cadarn a dibynadwy a fydd yn gallu helpu i fynd i'r afael â'r argyfwng ynni, yr argyfwng hinsawdd â'r argyfwng costau byw, gan rymuso cymunedau gwledig drwy leihau'r pwysau ar y grid presennol.


Rydyn ni'n ymrwymedig i weithio'n agos gyda chymunedau a rhanddeiliaid yng Nghymru wrth i ni ddatblygu ein cynlluniau, er mwyn manteisio i'r eithaf ar y buddion a lleihau'r effeithiau i bobl leol.



# Ychwanegu capasiti angenrheidiol i'r grid



**Cynyddu cynhyrchiant adnewyddadwy, lleihau'r defnydd o danwydd ffosil**



**Cysylltu trydan i gartrefi a busnesau**



**Gweithredu ar frys i fynd i'r afael â'r argyfwng hinsawdd**

**Dywed strategaeth Cyngor Sir Gâr – Cyflawni Sero Net erbyn 2030:**

**"Mae angen ymateb i'r argyfwng hinsawdd ar bob lefel. Yng Ngheredigion mae angen i ni ymateb ar lefel sirol ac felly mae angen i sefydliadau ac unigolion o bob cwr o'r sir ddod at ei gilydd i ddod o hyd i atebion a sicrhau bod newid sylweddol yn digwydd yn gyflym."**

**Cynllun Gweithredu Carbon Net Cyngor Sir Caerfyrddin:**

**"Rydym wedi ymrwymo i fynd i'r afael â newid yn yr hinsawdd ac rydym yn cydnabod bod gennym rôl bwysig i'w chwarae o ran lleihau ein hallyriadau nwyon tŷ gwydr ein hunain ymhellach a darparu'r arweiniad i annog preswylwyr, busnesau a sefydliadau eraill i weithredu."**





# Pam mae angen y cysylltiad

**Bydd angen mwy o gapasiti grid er mwyn mynd i'r afael â'r argyfwng hinsawdd, cysylltu datblygiadau ynni adnewyddadwy newydd, ehangu busnesau a chefnogi'r gwaith o drydaneiddio ein systemau gwresogi a thrafnidiaeth. Mae'r rhain yn heriau y mae Cymru'n eu hwynebu – heriau y mae angen mynd i'r afael â nhw ar frys, a heriau y mae Green GEN Cymru yn ceisio helpu i fynd i'r afael â nhw.**

Mae llawer o ynni glân ac adnewyddadwy yn cael ei greu yng Nghymru. Mae parciau ynni newydd yn cael eu cynnig yn y rhanbarth, ond nid oes gan y rhwydwaith trydan presennol y capasiti i'w cysylltu.

Fel Gweithredwr Rhwydwaith Dosbarthu Annibynnol, rôl Green GEN Cymru yw darparu cysylltiad ar gyfer cynhyrchwyr a defnyddwyr ynni.

Heb gysylltiad, ni allai'r ynni adnewyddadwy a ddarperir gan y parciau ynni arfaethedig hyn fod ar gael i gymunedau a busnesau, yn lleol nac yn genedlaethol.

Os na awn ati i uwchraddio'r rhwydwaith trydan presennol yn gyflym, mae perygl y byddwn yn methu â chyrraedd targedau ynni adnewyddadwy ac yn methu â mynd i'r afael â'r argyfwng hinsawdd. Gallai prosiect Tywi Teifi chwarae rhan bwysig yn y gwaith o fynd i'r afael â'r pryderon hyn drwy ddarparu ynni glân ac adnewyddadwy o'r man lle y caiff ei gynhyrchu i'r cymunedau a'r busnesau y mae ei angen arnynt.



# Ein cynigion

**Yn dilyn ein hymgynghoriad cyntaf yn 2024, rydyn ni wedi datblygu ein cynigion mewn ymateb i adborth a'n hasesiadau parhaus.**


Rydyn ni wedi cynhyrchu aliniad llwybr drafft, sy'n dangos lleoliadau posib ar gyfer y seilwaith sydd ei angen arnom.

Mae'r aliniad llwybr drafft yn amlinellu ein cynlluniau ar gyfer cysylltiad 132kV, sy'n mesur tua 52km o Lan Fawr, Ceredigion i is-orsaf newydd y National Grid yn Llandyfaelog, Sir Gaerfyrddin. Mae ein cynigion diweddaraf yn cynnwys y canlynol:

- Aliniad llwybr drafft newydd ger Cwm-ann, sydd ymhellach i ffwrdd o gartrefi a'r ysgol gynradd.
- Gosod ceblau o dan y ddaear mewn rhan o ardal Bryn Myrddin i gydnabod ei harwyddocâd diwylliannol a hanesyddol.
- Gosod ceblau o dan y ddaear mewn ail ran ger is-orsaf Llandyfaelog er mwyn helpu i reoli effeithiau gweledol mewn ardal lle mae seilwaith eisoes yn bodoli.
- Aliniad llwybr drafft sy'n dangos y lleoliadau arfaethedig ar gyfer peilonau, gan geisio cadw'r effeithiau ar gymunedau a'r dirwedd mor fach â phosibl.

Bydd y dyluniad manylach yn rhoi syniad llawer gwell i bobl o sut gallai'r cysylltiad edrych o ble maen nhw'n byw.

Mae'r dyluniad yn cynnwys peilonau ag uchder cyfartalog o 29.5m. Dyma'r peilonau lleiaf sydd ar gael i ni i gludo'r cyfanswm pŵer a gaiff ei gynhyrchu.



# Rhoi Adborth

**Mae'r adborth rydyn ni wedi'i gael hyd yma gan bobl leol, perchnogion tir a sefydliadau arbenigol wedi bod yn bwysig wrth i ni ddatblygu ein cynigion, ynghyd â'n hasesiadau ein hunain.**

Gallwch ddylanwadu ar ein cynigion o hyd, a hoffem gael eich adborth er mwyn i ni allu parhau i ystyried ffyrdd o gadw'r effeithiau mor fach â phosibl. Dywedwch wrthym a oes unrhyw newidiadau y gallwn eu gwneud er mwyn gwella neu leihau'r effeithiau yn eich barn chi ac, yn bwysig ddigon, pam.

Rydyn ni'n gofyn am adborth ar y canlynol:

- Ein haliniad llwybr drafft, gan gynnwys y lleoliadau arfaethedig ar gyfer peilonau a rhannau o waith gosod ceblau o dan y ddaear.
- Unrhyw wybodaeth neu effeithiau eraill y dylem eu hystyried wrth adolygu a datblygu ein cynigion.

Dim ond adborth ynglŷn â'n cynigion ni y gallwn ei ystyried, ac nid themâu ehangach fel cynhyrchu ynni neu bolisi'r llywodraeth.

Rydyn ni wedi trefnu'r aliniad llwybr drafft yn bum adran. Mae'r ffurflen adborth wedi'i threfnu'n adrannau tebyg, ac mae lle hefyd i roi adborth ehangach sy'n ymwneud yn benodol â'r prosiect cyffredinol.

Cyflwynwch eich adborth i ni erbyn 23:59 ddydd Mercher 16 Ebrill 2025. Mae'n bosibl na fydd ein tîm yn ystyried unrhyw adborth a ddaw i law ar ôl y dyddiad hwn. Caiff yr holl adborth a gawn ei adolygu a'i ystyried yn ofalus wrth i ni ddatblygu ein cynlluniau.

Gorau po fwyaf o fanylion y gallwch eu rhoi er mwyn i ni allu deall effeithiau posibl ein gwaith. Edrychwn ymlaen at gael eich adborth.

**Mae sawl ffordd o roi adborth.**


- Llenwi'r ffurflen adborth ar ein gwefan: **www.greengentowyteifi.com/cy**
- Copi caled o'r ffurflen adborth, sydd ar gael mewn digwyddiadau ymgynghori neu ar gais
- Anfon neges e-bost i: **info@greengentowyteifi.com**
- anfon adborth ysgrifenedig i: **RHADBOST GREEN GEN CYMRU TT**



Rydyn ni'n cynnal digwyddiadau ymgynghori â'r gymuned er mwyn i chi gael gwybod mwy am ein cynigion. Gallwch siarad â'n tîm a gweld model 3D digidol o'r cysylltiad.

**Lleoliadau digwyddiadau ymgynghori**

| Lleoliad | Dyddiad | Amser |
|---|---|---|
| **Eglwys y Bedyddwyr,** Glanduar, Llanybydder, SA40 9RS | Dydd Iau 20 Mawrth | 14:00 - 19:00 |
| **Neuadd Goffa Llanpumsaint,** Llanpumsaint, Caerfyrddin, SA33 6BZ | Dydd Gwener 21 Mawrth | 11:00 - 16:00 |
| **Ysgol Gymuned Peniel,** Peniel, Caerfyrddin, SA32 7AB | Dydd Sadwrn 22 Mawrth | 10:00 - 15:00 |
| **Canolfan Lles Llambed,** Rhes Ffynnonbedr, Llanbedr Pont Steffan, Ceredigion, SA48 7BX | Dydd Iau 27 Mawrth | 14:00 - 18:00 |
| **Neuadd Cymuned Llandyfaelog,** Llandyfaelog, Kidwelly, SA17 5PA | Dydd Gwener 28 Mawrth | 14:00 - 19:00 |
| **Pafiliwn Cymunedol Pencader,** Pencader, Caerfyrddin, SA39 9ER | Dydd Sadwrn 29 Mawrth | 10:00 - 15:00 |






# Datblygu aliniad drafft y llwybr

**Rydyn ni wedi datblygu aliniad llwybr drafft sy'n cynnwys rhannau o waith gosod ceblau o dan y ddaear, lleoliadau arfaethedig peilonau, a seilwaith cysylltiedig.**

Mae'r aliniad llwybr drafft wedi'i gynllunio'n fanwl iawn ac mae'n agored i newid o hyd. Yn ogystal â'r adborth rydyn ni wedi'i gael hyd yma, rydyn ni wedi ystyried amrywiaeth o ffactorau, gan gynnwys:

- **Tirwedd:** lleoliad y dirwedd, gan gynnwys golygfeydd i'r ardal ac oddi yno
- **Ffactorau economaidd-gymdeithasol:** gan gynnwys twristiaeth a gweithgareddau eraill, fel amaethyddiaeth
- **Rhwymedigaethau a rheoliadau:** cyfraith a chanllawiau cynllunio cenedlaethol a rhanbarthol, sy'n cynnwys gofynion statudol a osodir arnom wrth weithredu fel Gweithredwr Rhwydwaith Dosbarthu Annibynnol (IDNO)
- **Technegol:** gwneud yn siŵr y byddai'r cysylltiad yn gweithio'n ddiogel
- **Ecoleg:** fel rhywogaethau planhigion ac anifeiliaid pwysig
- **Treftadaeth ddiwylliannol:** ardaloedd o arwyddocâd hanesyddol, fel safleoedd archaeolegol
- **Cost:** gwneud yn siŵr y byddai'r cysylltiad yn gosteffeithiol i'w adeiladu a'i weithredu, yn unol â gofynion Ofgem i helpu i gadw biliau trydan defnyddwyr mor isel â phosibl






Data map © cyfranwyr OpenStreetMap, Microsoft, Facebook, Inc. a'i gysylltiadau, cyfranwyr Mapiau Cymunedol Esri, haen Map gan Esri

# Adran 1:
# Lan Fawr i Lanbedr Pont Steffan

**Mae'r aliniad llwybr drafft yn dechrau ym Mharc Ynni arfaethedig Lan Fawr, o is-orsaf newydd rhwng Llanfair Clydogau a Llyn y Gwaith wrth droed Mynyddoedd Cambria. Mae lleoliad yr is-orsaf, wedi'i amlygu mewn porffor ar y map, yn dangosol yn unig ar hyn o bryd. Caiff safle terfynol yr is-orsaf ei gynnwys yn y cais cynllunio ar gyfer y parc ynni.**

**Mae'r aliniad llwybr drafft yn mynd i gyfeiriad y gorllewin tuag at Lanfair Clydogau ac Afon Teifi, cyn troi i'r de-orllewin a heibio i Bentre'r-felin, Cellan a Ram. Ar ôl croesi'r A482, mae Adran 1 yn gorffen ar bwynt i'r de-ddwyrain o Barc-y-rhôs.**

Bydd yr aliniad llwybr drafft yn yr adran hon yn mesur tua 9.8 km o hyd, wedi'i gefnogi gan tua 44 o beilonau delltwaith dur.

Ymhlith y prif ystyriaethau ar gyfer yr aliniad llwybr drafft ar gyfer Adran 1 mae:


- **Eiddo preswyl** – mewn ymateb i adborth y cyhoedd mae'r aliniad llwybr drafft wedi cael ei symud ymhellach i'r dwyrain er mwyn sicrhau'r pellter mwyaf posibl oddi wrth eiddo yng Nghwm-ann a Ram.
- **Ysgol gynradd leol** – o ganlyniad i adborth gan y cyhoedd, rydyn ni wedi symud yr aliniad llwybr drafft y tu allan i'r Coridor Llwybr a Ffefrir yn y lleoliad hwn er mwyn cynyddu'r pellter oddi wrth Ysgol Carreg Hirfaen, sef yr ysgol gynradd leol.
- **Perygl llifogydd** – wrth ddewis lleoliadau'r peilonau, mae camau diogelu wedi cael eu cymryd er mwyn osgoi gosod peilonau mewn dwy ardal parth llifogydd yng nghyffiniau Pentre'r-felin.
- **Coetir** – mae'r aliniad llwybr drafft yn sicrhau y caiff cyn lleied â phosibl o goed eu colli ac yn osgoi croesi ardaloedd o goetir hynafol.
- **Cynefinoedd pwysig** – mae lleoliadau'r peilonau wedi cael eu dewis yn ofalus er mwyn osgoi cynefinoedd â blaenoriaeth hysbys, fel porfeydd brwyn a glaswellt y gweunydd, a glaswelltir sych asidig iseldir. Rhoddir sylw i gynefinoedd â blaenoriaeth drwy waith dylunio manwl pan fyddwn wedi nodi eu lleoliadau yn ystod arolygon safle. Bydd y lleoliadau terfynol a gaiff eu dewis ar gyfer y peilonau yn osgoi'r ardaloedd hyn cymaint â phosibl.

**Rhagor o wybodaeth**

I gael gwybodaeth fanylach am yr opsiynau a gafodd eu hystyried ar gyfer y llwybr a sut y gwnaethom ddewis yr aliniad llwybr drafft, darllenwch y Ddogfen Dewis Llwybr ac Ymgynghori ar ein gwefan: **www.greengentowyteifi.com/cy**.



**Adran 1:** Llanbedr Pont Steffan i Lanllwni




© Crown copyright and database rights 2024 Ordnance Survey AC0000808122

Open source datasets used to produce constraints mapping obtained from: Natural Resource Wales, Cadw, Data Map Wales, Ordnance Survey, West Wales Biological Information Centre, Royal Society for the Protection of Birds, British Geological Survey, Dyfed Archaeological Trust, National Forest Inventory Wales, Carmarthenshire County Council, Ceredigion County Council, The Coal Authority, Llwodraeth Cymru, National Grid, UK Government, Welsh Government, Ministry of Defence

# Adran 2:
# Llambed i Lanllwni

O Barc-y-rhôs, mae Adran 2 yn mynd i gyfeiriad y de-orllewin, gan fynd heibio i'r de-ddwyrain o Lanybydder ac yn ei blaen i'r gogledd o Abergiâr, cyn croesi ar draws yr A485 a Nant Hor. Gan osgoi ardaloedd o lethrau serth o amgylch Mynydd Pencarreg a Mynydd Llanybydder, mae'r llwybr yn parhau tua'r de-orllewin ac yna tua'r de, gan fynd heibio i'r gogledd-ddwyrain o Abergiâr ac i'r dwyrain o Lanllwni.

Bydd yr aliniad llwybr drafft yn yr adran hon yn mesur tua 12.5km o hyd, wedi'i gefnogi gan 57 o beilonau delltwaith dur.

Ymhlith y prif ystyriaethau ar gyfer yr aliniad llwybr drafft ar gyfer Adran 2 mae:

- **Eiddo preswyl** – mae'r aliniad llwybr drafft wedi'i osod y tu allan i'r Coridor Llwybr a Ffefrir yn yr ardal hon er mwyn cynyddu'r pellter oddi wrth eiddo preswyl yn Llanybydder, Rhyd-y-bont a Thŷ Mawr, gan sicrhau na chaiff ei leoli'n rhy agos at henebion cofrestredig a choetir yn yr ardal.
- **Seilwaith trydan presennol** – mae'r aliniad llwybr drafft y tu allan i'r Coridor Llwybr a Ffefrir er mwyn sicrhau pellter diogel ac addas oddi wrth y seilwaith trydan presennol ac arfaethedig yn rhan ogleddol y Coridor Llwybr a Ffefrir, yn enwedig llinell uwchben 132kV bresennol.
- **Tirwedd a golygfeydd** – mae'r aliniad llwybr drafft wedi cael ei ddewis yn ofalus er mwyn osgoi Mynydd Llanllwni, sy'n cael ei gydnabod fel ardal tirwedd arbennig.
- **Cynefinoedd pwysig** – mae'r aliniad llwybr drafft yn cynnig cyfleoedd i osgoi cynefinoedd pwysig yn yr ardal hon, gan gynnwys Caeau Blaenbydernyn, sy'n Safle o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig.

**Rhagor o wybodaeth**

I gael gwybodaeth fanylach am yr opsiynau a gafodd eu hystyried ar gyfer y llwybr a sut y gwnaethom ddewis yr aliniad llwybr drafft, darllenwch y Ddogfen Dewis Llwybr ac Ymgynghori ar ein gwefan: **www.greengentowyteifi.com/cy**.

**Adran 2:** Llambed i Lanllwni




© Crown copyright and database rights 2024 Ordnance Survey AC0000808122

# Adran 3: Llanllwni i Alltwalis

**Yn Adran 3, mae'r aliniad llwybr drafft yn parhau i gyfeiriad y de-orllewin gan fynd heibio i'r B4336, Afon Talog ac Afon Gilwydeth, i'r gogledd-ddwyrain o Lanllwni, New Inn a Gwyddgrug. Gan barhau tua'r de-orllewin, mae'r aliniad llwybr drafft yn mynd heibio i'r de-ddwyrain o Bencader a Dolgran, gan groesi'r A485 a gorffen ar bwynt i'r dwyrain o Alltwalis.**

**Bydd yr aliniad llwybr drafft yn yr adran hon yn mesur tua 10km o hyd, wedi'i gefnogi gan 44 o beilonau delltwaith dur.**

Ymhlith y prif ystyriaethau ar gyfer aliniad y llwybr drafft ar gyfer Adran 3 mae:


- **Eiddo preswyl** – rydyn ni wedi symud yr aliniad llwybr drafft y tu allan i'r Coridor Llwybr a Ffefrir, er mwyn cynyddu'r pellter oddi wrth Lanllwni, Alltwalis a Phencader. Mae'r aliniad llwybr drafft hefyd yn ystyried lleoliad eiddo gwasgaredig yn yr ardal.
- **Nodweddion hanesyddol** – mae'r llwybr wedi cael ei ddewis yn ofalus er mwyn sicrhau pellter rhesymol oddi wrth fwnt castell Castell Du, sef heneb gofrestredig yn Nolgran, a Neuadd Maesycrugiau, sef parc a gardd hanesyddol cofrestredig i'r gorllewin o Lanllwni.
- **Tirwedd a golygfeydd** – mae'r aliniad llwybr drafft y tu allan i'r Coridor Llwybr a Ffefrir er mwyn osgoi lleoli peilonau ar y tir uwch i'r dwyrain, lle y gallent fod yn fwy gweladwy.

Ar y cam dylunio nesaf, byddwn yn ystyried yn ofalus sut y gellir defnyddio'r tir bryniog yn yr ardal hon i sgrinio golygfeydd o beilonau lle bo modd ac i osgoi unrhyw effeithiau posib ar leoliad nodweddion hanesyddol yn yr ardal.

**Rhagor o wybodaeth**

I gael gwybodaeth fanylach am yr opsiynau a gafodd eu hystyried ar gyfer y llwybr a sut y gwnaethom ddewis yr aliniad llwybr drafft, darllenwch y Ddogfen Dewis Llwybr ac Ymgynghori ar ein gwefan: **www.greengentowyteifi.com/cy**.

**Adran 3:** Llanllwni i Alltwalis




© Crown copyright and database rights 2024 Ordnance Survey AC0000808122

# Adran 4:
# Alltwalis i Rydargaeau

**Yn Adran 4, mae'r aliniad llwybr drafft yn mynd i gyfeiriad y de, gan groesi Afon Gwili a mynd ar hyd ymyl ddwyreiniol Pontarsais. Gan barhau tua'r de, mae'n croesi Nant Corrwg ac yn mynd heibio i'r dwyrain o Rydargaeau.**

**Bydd yr aliniad llwybr drafft yn y rhan hon yn tua 4.2km o hyd, wedi'i gynnal gan 20 o beilonau dellt dur.**

Ymhlith y prif ystyriaethau ar gyfer aliniad y llwybr drafft ar gyfer Adran 4 mae:

- **Eiddo preswyl** – mae'r aliniad llwybr drafft yn cael ei osod y tu allan i'r Coridor Llwybr a Ffefrir tua'r dwyrain, er mwyn cynyddu'r pellter oddi wrth eiddo preswyl ger yr A485 ym Mhontarsais a phentref Rhydargaeau.
- **Perygl llifogydd** – rydyn ni wedi dewis llwybr sy'n osgoi sawl ardal o barth llifogydd sy'n gysylltiedig ag Afon Gwili, gan osgoi ardaloedd o goetir ar hyd glannau'r afon.
- **Nodweddion treftadaeth** – mae'r aliniad llwybr drafft y tu allan i'r Coridor Llwybr a Ffefrir er mwyn sicrhau y caiff Ardal Tirwedd Hanesyddol Dyffryn Tywi ei hosgoi cymaint â phosibl.


Yn ystod y cam dylunio nesaf, byddwn yn ystyried y coetir i'r de-ddwyrain o Rydargaeau yn ofalus, fel rhan o arolygon maes i sicrhau ein bod yn cadw cyn lleied â phosibl o goed a gollir.

**Rhagor o wybodaeth**

I gael gwybodaeth fanylach am yr opsiynau a gafodd eu hystyried ar gyfer y llwybr a sut y gwnaethom ddewis yr aliniad llwybr drafft, darllenwch y Ddogfen Dewis Llwybr ac Ymgynghori ar ein gwefan: **www.greengentowyteifi.com/cy**.



**Adran 4:** Alltwalis i Rydargaeau




© Crown copyright and database rights 2024 Ordnance Survey AC0000808122

# Adran 5:
# Rhydargaeau i Landyfaelog

**Yn Adran 5 mae aliniad y llwybr drafft yn parhau tua'r de o Rydargaeau i'r dwyrain o Beniel, Abergwili a Chaerfyrddin, gan groesi'r A48 a'r B4309 cyn gorffen mewn gorsaf gyfnewid arfaethedig yn Llandyfaelog. Caiff safle terfynol yr orsaf drawsnewid ei gynnwys yn y cais cynllunio ar gyfer yr is-orsaf.**

**Mae Adran 5 yn cynnwys cymysgedd o seilwaith trydan, gan gynnwys 46 o beilonau delltwaith dur yn ymestyn dros tua 10km rhwng Rhydargaeau a Llandyfaelog.**

Yn dilyn adborth gan y cyhoedd ac astudiaethau technegol ac amgylcheddol pellach, rydyn ni'n cynnig defnyddio ceblau tanddaearol mewn dau leoliad ar wahân, sef un ym Mryn Myrddin ac un arall yn Llandyfaelog. Mae hyd cyfun y ceblau tanddaearol arfaethedig yn Adran 5 oddeutu 5km. Mae lleoliadau arfaethedig y peilonau a'r rhannau o waith gosod ceblau o dan y ddaear i'w gweld ar y map.

Ymhlith y prif ystyriaethau ar gyfer lleoli peilonau a gosod ceblau o dan y ddaear mae:


- **Eiddo preswyl** – mae'r aliniad llwybr drafft yn osgoi pentrefi Felin-wen a Chwm-ffrwd yn well.
- **Coetir** – mae'r aliniad llwybr drafft yn cael ei osod y tu allan i'r Coridor Llwybr a Ffefrir yn yr ardal hon, gan leihau faint o goetir y bydd ceblau tanddaearol yn effeithio arno i'r gorllewin o Fryn Myrddin.
- **Perygl llifogydd** – rydyn ni wedi dewis cebl tanddaearol i groesi o dan Afon Tywi er mwyn osgoi'r angen am beilonau yn y parth llifogydd.
- **Bioamrywiaeth** – rydyn ni wedi dewis mynd o dan Afon Tywi, sy'n Safle o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig ac yn Ardal Gadwraeth Arbennig. Mae'r aliniad llwybr drafft yn osgoi cynefinoedd pwysig fel corsydd iseldir a gwelyau cors, a phorfeydd brwyn a glaswellt y gweunydd.
- **Nodweddion treftadaeth** – mewn ymateb i adborth gan y cyhoedd, rydyn ni'n cynnig gosod ceblau o dan y ddaear ym Mryn Myrddin, sef heneb gofrestredig bwysig yn yr ardal, gan osgoi Llys yr Esgob, sef parc a gardd cofrestredig yn Abergwili.
- **Seilwaith presennol** – mae'r aliniad llwybr drafft yn sicrhau nad yw'r prosiect yn rhedeg yn gyfochrog â llinell uwchben 132kV bresennol ar bolion pren yn yr ardal.

**Rhagor o wybodaeth**


I gael gwybodaeth fanylach am yr opsiynau a gafodd eu hystyried ar gyfer y llwybr a sut y gwnaethom ddewis yr aliniad llwybr drafft, darllenwch y Ddogfen Dewis Llwybr ac Ymgynghori ar ein gwefan: **www.greengentowyteifi.com/cy**.



**Adran 5:** Rhydargaeau i Landyfaelog (adran ogleddol)




**Adran 5:** Rhydargaeau i Landyfaelog (adran ddeheuol)




© Crown copyright and database rights 2024 Ordnance Survey AC0000808122

# Dyluniad y peilonau – yr hyn rydyn ni'n ei gynnig

**Mae gan y peilonau rydyn ni'n eu cynnig uchder cyfartalog o 29.5m – dyma'r peilonau lleiaf sydd ar gael i ni i gludo faint o bŵer a gaiff ei gynhyrchu. Fel arfer, byddai'r 212 o beilonau'n cael eu gosod â phellter cyfartalog o 270 metr rhyngddynt.**

Mae technolegau sy'n cael eu defnyddio ar gyfer rhwydweithiau trydan newydd yn cael eu hystyried o ran adborth gan y gymuned, tir, yr amgylchedd, defnydd tir, gweithredu a chynnal a chadw, y pŵer sy'n cael ei drosglwyddo ar draws y rhwydwaith, yn ogystal â'r gost.

Wrth ystyried yr amgylchedd lleol, fel y dirwedd, topograffeg a choetir, a'r gofynion polisi ar gyfer llinellau uwchben, credwn mai'r dyluniad peilon hwn sy'n cynnig y datrysiad mwyaf priodol.

O ystyried uchder a dyluniad y peilon hwn, byddai coed a nodweddion tirwedd eraill yn cynnig cyfleoedd sgrinio. Ynghyd â dewis llwybr yn ofalus, maent yn cynnig cyfle i reoli effeithiau gweledol.

Prif nodweddion peilonau delltwaith:

- Technoleg sydd wedi'i phrofi ac sydd i'w gweld mewn cymunedau ledled y wlad.
- Wedi'u dylunio i leihau'r gweledol ar y dirwedd o'u hamgylch.
- Addas ar gyfer tirweddau tonnog caeedig, gan y byddai'r bryniau'n gweithredu fel cefndir, gyda llai o'r peilon yn cael ei weld uwchben y nenlinell.
- Wedi'u dylunio i wrthsefyll amodau tywydd eithafol, fel gwyntoedd cryf a rhew yn ffurfio ar y dargludyddion.
- Maent yn bodoli mewn gorlifdiroedd ledled y wlad a byddwn yn sicrhau ein bod yn defnyddio dulliau adeiladu priodol yn yr ardaloedd sensitif hyn.



# Gosod ceblau o dan y ddaear

**Rydyn ni'n cynnig dwy adran ar wahân o geblau tanddaearol fel rhan o'n haliniad llwybr drafft, sef un ym Mryn Myrddin ac un arall yn Llandyfaelog, gan wneud cyfanswm o tua 5km. Dylanwadwyd ar y penderfyniad hwn gan adborth y ymgynghoriad a'n hasesiadau parhaus ein hunain.**

Mae mwy nag un dechneg ar gael ar gyfer gosod ceblau o dan y ddaear, sef cloddio neu aredig ffosydd lle gellir gosod y ceblau fel arfer.

Cyn i'r gwaith ddechrau, caiff 'lled gwaith' yr ardal ei ffensio er mwyn diogelu'r safle ac amddiffyn da byw. Caiff ffordd gludo dros dro ei chreu ar gyfer cerbydau adeiladu, caiff llystyfiant ei dynnu, caiff uwchbridd ei gloddio a'i storio i'w ailddefnyddio ar ôl y gwaith adeiladu, a chaiff mesurau draenio priodol a mesurau diogelu amgylcheddol dros dro eu rhoi ar waith.

Gall y ffosydd amrywio o ran lled yn dibynnu ar amodau'r tir, nifer y ceblau i'w gosod a'u foltedd, sy'n pennu pa mor bell ar wahân y bydd yn rhaid gosod y ceblau. Mae ceblau tanddaearol yn fwy trwchus na dargludyddion uwchben oherwydd bod angen eu hinswleiddio a'u gwarchod. Gall ffos ar gyfer llinell drydan cylched dwbl o 12-18 o geblau fod yn debyg o ran lled i ffordd ddeuol.

Caiff y ceblau eu danfon i'r safle ar ddrymiau ac yna eu winsio i'w lle. Bydd angen baeau uno (siambrau concrit tanddaearol fel arfer) a blychau cyswllt ar bob pwynt lle y bydd angen uno ceblau.

Ar ôl gorffen gosod y ceblau, caiff y ffosydd eu hôl-lenwi (gan ddefnyddio'r uwchbridd gwreiddiol lle bynnag y bo modd), caiff yr holl ffyrdd cludo, arwynebau a ffensys dros dro eu tynnu, a chaiff y tir ei adfer i'w gyflwr gwreiddiol.

**Technegau di-ffos**
Mewn rhai sefyllfaoedd, fel wrth groesi ffyrdd, afonydd neu reilffyrdd, ni fydd yn briodol cloddio ffosydd ar gyfer ceblau tanddaearol. Yn y sefyllfaoedd hyn, gellir gosod ceblau mewn twneli, neu drwy dyllu â tharadr neu drwy ddefnyddio technegau Drilio Cyfeiriadol Llorweddol (HDD).

**Aredig ceblau**
Efallai y bydd modd defnyddio techneg aredig ceblau ar gyfer gwaith adeiladu o dan y ddaear ac mae Green GEN yn siarad â chontractwyr i ddeall hyfywedd, effeithiau a chostau'r dull hwn.







Adran tanddaearol yn dangos un gylched ar ddau gebl fesul cam. Rhagwelir y bydd angen arwynebedd tir Tywi Teifi o leiaf ddwywaith y lled hwn.





# Gwybodaeth i gefnogi'r ymgynghoriad

**Mae'r holl ddogfennau ar gyfer yr ymgynghoriad hwn ar gael i'w gweld ar ein gwefan: www.greengentowyteifi.com/cy**

- Adroddiad ymgynghori anstatudol cam un – Ionawr—Mawrth 2024
- Llyfryn
- Ffurflen adborth
- Cwestiynau cyffredin
- Dogfen Llwybro ac Ymgynghori Cam Dau





# Beth fydd yn digwydd nesaf

**Mae ein prosiect yn cael ei hyrwyddo fel Datblygiad o Arwyddocâd Cenedlaethol (DNS) yng Nghymru. Fel datblygwyr, byddwn yn cyflwyno ein cais cynllunio Penderfyniadau Cynllunio ac Amgylchedd Cymru (PEDW) i'w adolygu, cyn i Weinidogion Cymru wneud penderfyniad terfynol.**

Bydd adborth gan y cyhoedd, awdurdodau lleol, cynghorau cymuned a sefydliadau cenedlaethol yn ein helpu i ddatblygu dyluniad terfynol ar gyfer y prosiect. Byddwn hefyd yn cynnal rhagor o asesiadau technegol ac arolygon i lywio ein Hasesiad o'r Effaith Amgylcheddol.

Wedyn, caiff yr Asesiad o'r Effaith Amgylcheddol ei gyflwyno mewn Datganiad Amgylcheddol a fydd yn nodi effeithiau posibl y prosiect ac unrhyw fesurau lliniaru arfaethedig.

Cyn i ni gyflwyno cais am ganiatâd i Weinidogion Cymru, bydd cyfnod Ymgynghori Cyn Ymgeisio statudol, pan fydd pobl yn gallu bwrw golwg dros y dyluniadau manwl a'r Datganiad Amgylcheddol drafft a gwneud sylwadau arnynt.

**Llinell amser gyfredol y prosiect**

- **2024** Ymgynghoriad cyhoeddus cyntaf
- **2025** Ail ymgynghoriad cyhoeddus
- **2026** Trydydd ymgynghoriad cyhoeddus (statudol)
- **2026** Cyflwynir y cais i PEDW i'w adolygu
- **2027** Penderfyniad disgwyliedig ar y cais
- **2027** Bydd y gwaith adeiladu yn dechrau os caiff y prosiect ei ganiatáu
- **2029** Prosiect Tywi Teifi yn weithredol



GREEN GEN CYMRU


www.greengencymru towyteifi.com/cy

info@greengen towyteifi.com

0800 915 2496

FREEPOST Green GEN Cymru TT



Gwnaed y llyfryn hwn gan ddefnyddio adnoddau cynaliadwy